# Cyngor Cymuned Dolbenmaen

Cofnodion Cyfarfod Misol y Cyngor a gynhaliwyd ar y **15fed o Ionawr 2026** yng Nghanolfan Gymdeithasol Golan.

| | | |
|---|---|---|
| 1. | Presennol: | Richard Williams (Cadeirydd), Megan Lloyd Williams, John Till (Golan), Enid Egginton, Clifford Williams, John Jones (Garndolbenmaen), Edward Evans, Richard Parry (Bryncir), Gwilym Evans (Prenteg) Iddon Edwards (Penmorfa) Huw Pritchard, Raymond Jones (Pentrefelin) |
| 2. | Ymddiheuriadau: | Gwenno Emlyn Huws (Penmorfa) Stephen Churchman, June Jones (Cynghorwyr Cyngor Gwynedd) |
| 3. | Ddim yn bresennol: | Neb |
| 4. | Datgan Buddiant: | Neb |
| 5. | Cywirdeb y cyn-gofnodion : | JT yn cynnig a JJ yn eilio. |
| 6. | Materion yn codi o'r cyn-gofnodion: | **Bin Halen:** Mae'r gwaith o osod bin halen newydd a symud yr un ger Isallt wedi ei basio ymlaen i'r uned waith. JT am fynd i weld os yw'r bin wedi'i osod a'i symud. |
| 7. | Mynwentydd: | Sied Mynwent Bethel – y gwaith plaster wedi dirywio. MLW yn cynnig bod y Cyngor Cymuned yn gweithredu.<br><br>*** GE yn ymuno hefo'r cyfarfod<br><br>Clerc i gysylltu gydag adeiladwyr i gael prisiau. JJ yn fodlon cyfarfod â hwy yn y fynwent.<br><br>Adroddodd y Clerc bod y bin ym Mhrenteg wedi'i wagio.<br><br>Awgrymwyd bod angen arwyddion yn y mynwentydd i ofyn i bobl fynd a'u gwastraff adref. Clerc i greu. |
| 8. | Llwybrau Cyhoeddus: | Dim i'w adrodd. |
| 9. | Adroddiad Pentrefi: | **Pentrefelin:** Derbyniwyd cwyn am gyflwr safle bws y pentref, gyda phobl yn gadael gwastraff yno. Anogir trigolion i fynd â'u gwastraff adref.<br><br>Mae dŵr yn parhau i redeg i lawr y ffordd o gyfeiriad Tŷ'n Llech, gan achosi dirywiad i ddarn o goncrid ac yn peri perygl i rywun ddisgyn i'r nant; y Clerc i adrodd am hyn.<br><br>Adroddwyd bod Stephen Churchman wedi cysylltu ynghylch arwydd VAS diffygiol ym Mhentrefelin. Nododd Cyngor Gwynedd mai cyfrifoldeb y cynghorau cymuned yw cynnal a chadw'r arwyddion hyn. Nid oes cofnod bod Cyngor Cymuned Dolbenmaen wedi cytuno i gymryd rheolaeth o'r arwydd VAS. Nid oes cyllid ar gael gan Gyngor Gwynedd ar hyn o bryd i ddisodli neu adnewyddu arwyddion rhyngweithiol, ac nid yw hyn yn rhan o'u rhaglen waith cyfredol nac yn ddyletswydd statudol. Os yw'r ddyfais yn ddiffygiol, dylid ystyried ei thynnu o'r briffordd er mwyn |

| | | |
|---|---|---|
| | | sicrhau diogelwch. Clerc i wneud ymholiadau pellach gyda chynghorau cymuned eraill i weld os ydynt wedi cymryd cyfrifoldeb dros yr arwyddion VAS yma sydd yn eu cymunedau.<br><br>**Golan:** Nodwyd bod dau dwll ar y ffordd rhwng Ymwlch Fawr ac Ymwlch Ganol sy'n gofyn am sylw.<br><br>Tynnwyd sylw at ddŵr yn llifo i lawr y ffordd sy'n arwain at Rhwngddwyafon yng Nghwm Pennant, gan greu perygl sylweddol os bydd yn rhewi.<br><br>Mynegwyd pryder ynghylch dirywiad cyflwr ffordd Golan, gyda dŵr yn cronni mewn mannau newydd.<br><br>Mae angen clirio a glanhau o amgylch y blwch post.<br><br>Clerc i adrodd am y materion uchod i Gyngor Gwynedd.<br><br>**Penmorfa:** Dim i'w adrodd<br><br>**Garndolbenmaen:** Rhai eiddo yn parhau i gael trafferthion cyflenwad dŵr yn y pentref. Anogir i breswylwyr adrodd am y problemau yma yn uniongyrchol i Dŵr Cymru.<br><br>**Bryncir:** Llawer o sbwriel ar ochr y ffyrdd gan gynnwys y ffyrdd cefn. Clerc i gysylltu ar uned ailgylchu a hefyd Tîm Tacluso.<br><br>Diweddariad Safle Bws Bryncir - Cafwyd diweddariad gan Stephen Churchman, roedd wedi derbyn gohebiaeth gan Alfie Waiting o YGC. Mae YGC yn aros canlyniad archwiliad diogelwch ffordd. Maent yn gobeithio cael yr adroddiad yn ôl cyn diwedd Chwefror. Unwaith y daw hwnnw, awgrymodd bod cyfarfod yn cael ei drefnu rhyngom ni, YGC, Cyngor Gwynedd a Llywodraeth Cymru<br><br>**Prenteg:** Cynhaliwyd cyfarfod safle gyda'r Cynghorydd June Jones a swyddogion Uned Draffig i drafod gosod arwydd uchder pont ar y ffordd i Feddgelert. Cytunodd yr Adran Draffig i osod yr arwydd ym Mhrenteg, lle mae'r arwyddion brown ar gyfer Plas Aberdunant, gan alluogi loriau i droi rownd yng nghanol y pentref. Mae Rheolwr Plas Aberdunant yn hapus i gydweithio ac i'r arwyddion brown gael eu symud i wneud lle i'r arwydd pont isel.<br><br>Soniwyd nad oedd y calendr casgliad gwastraff ac ailgylchu ar gael ar wefan Cyngor Gwynedd. Clerc i holi'r Uned Wastraff. |
| 10. | Cyllideb 2026/27 a Gosod Praesept | Trafodwyd y gyllideb ar gyfer y flwyddyn nesaf. Penderfynwyd codi cyllideb yr yswiriant i £2,000. Penderfynwyd codi cyllideb cynnal a chadw'r diffibrilwyr i £1,000. Pawb yn cydweld. Derbyniwyd y gyllideb.<br><br>Cyflwynwyd argymhelliad yr is-bwyllgor cyllid o gadw'r praesept yn £18,000. MLW yn cynnig derbyn yr argymhelliad ac IE yn eilio a phawb yn cydweld. |

| | | |
|---|---|---|
| 11. | Yswiriant | Angen ychwanegu wal y fynwent ym Methel i'r cyfer yswiriant a hefyd sied bren yng Nghae Chwarae Penmorfa. |
| 12. | Asesiad Risg | Adolygwyd yr asesiad risg ac ychwanegwyd tri risg arall i'r asesiad sef difrod i wal y fynwent a hefyd i gerrig coffau tu ôl i'r wal - rhain i'w hychwanegu i bolisi yswiriant y cyngor. Ychwanegwyd anaf i berson yn y cae chwarae ym Mhenmorfa. I leihau'r risg yma dylid cwblhau archwiliad safle rheolaidd.<br><br>CW yn cynnig derbyn yr asesiad risg a MLW yn eilio a phawb yn cydweld. |
| 13. | Gohebiaeth | a) Cyllid Cyngor Gwynedd – Anfoneb Etholiadau. Adroddodd y Clerc ei bod wedi rhoi gwybod i'r Adran Gyllid ein bod yn dal i aros am ymateb gan yr Uned Etholiadau.<br>b) Cyllid Cyngor Gwynedd – Gosod Praesept. Clerc i ymateb i'r e-bost yma ar ôl y cyfarfod heno i nodi ein praesept.<br>c) Rhybudd Cau Ffordd – Cau'r Ffordd o Ffordd Bwlch Derwin i'r Groesffordd Ger Ffridd, Bwlch Derwin – 26ain o Ionawr 2026<br>ch) Tîm Tacluso Ardal Ni – Rhaglen Waith Ionawr 2026 (Ardal Dolbenmaen). Clerc i holi'n union pa waith sydd wedi'i gwblhau.<br>d) Moderneiddio Addysg – Ymgynghoriad ar y cynnig i gau Ysgol Nebo. Clerc i ymateb i'r ymgynghoriad i gefnogi cadw'r ysgol yn agored.<br>dd) Moderneiddio Addysg - Ymgynghoriad ar y cynnig i gau Ysgol Baladeulyn. Clerc i ymateb i'r ymgynghoriad i gefnogi cadw'r Ysgol yn agored. |
| 14. | Gohebiaeth Ychwanegol | a) Unllais Cymru - Hyfforddiant Rhagfyr i Fawrth 2026. Rhannwyd.<br>b) Martin Bull, Llywodraeth Cymru - Swm priodol o dan adran 137(4)(a) o Ddeddf Llywodraeth Leol 1972 - Terfyn gwariant adran 137 ar gyfer 2026-27 . Rhannwyd.<br>c) Liz Saville Roberts – Safle Bws Bryncir. Ymatebodd y Clerc i'r e-bost.<br>ch) Mabon ap Gwynfor – Ymateb Cyngor Gwynedd i Sefyllfa Safle Bws Bryncir. Rhannwyd ac ymatebodd y Clerc i'r e-bost.<br>d) Parc Cenedlaethol Eryri – Rhaglen Cyfleusterau Cymunedol. Rhannwyd gyda'r neuaddau yn y gymuned. |
| 15. | Cynllunio | **Rhestrau** 1/12, 8/12, 15/12, 22/12 a 29/12<br><br>**C25/0866/36/DT** - 27 Bryn Tyddyn, Pentrefelin, Criccieth, Gwynedd, LL52 0P. Estyniad unllawr i edrychiad cefn yr eiddo. Rhannwyd – dyddiad wedi pasio.<br><br>**C25/0810/36/LL** - Bron y Gadair, Pentrefelin, LL52 0PT. Newid defnydd o feudai amaethyddol anghyfredol i lety gwyliau (C6) gyda mynediad newydd o'r brif ffordd. Rhannwyd. Dyddiad wedi pasio.<br><br>**C25/0085/36/LL** – Glan Byl, Pentrefelin, LL52 0RD. Cais am 1 tyrbin gwynt arfaethedig a phaneli solar wedi ei osod ar y ddaear. Rhannwyd. Dyddiad wedi pasio. |

| | | |
|---|---|---|
| 16. | Materion Ariannol | **Ceisiadau am arian:**<br>Canolfan Pentrefelin<br>Neuadd Penmorfa<br>Ysgol Garndolbenmaen<br>Cyfeillion Ysgol y Gorlan<br>CFFI Dyffryn Madog<br>Urdd Gogledd Cymru<br>Eisteddfod Garndolbenmaen<br>Canolfan Gymdeithasol Golan<br><br>I'w trafod yn y cyfarfod ym mis Chwefror.<br><br>**Monitro'r Gyllideb**: Dim Gorwariant<br><br>**Biliau i'w talu:**<br><br>Cyflog Clerc £ 342.89<br>Ffôn £ 15.00<br>Cyfrifiadur £ 20.00<br>HMRC £ 85.72<br><br>Ychwanegwyd:<br><br>Dylan Edwards (Llwybrau a Mynwentydd) - £2,490<br>Idris Jones (Llwybrau) – £1,320<br><br>**** Cymeradwywyd i dalu'r uchod.**<br><br>**Derbyniadau –**<br><br>Llog £157.47<br><br>**Balansau Cyfrifon:**<br>Cadw – £40,000<br>Cyfredol- £2,265.73 |
| 18. | Dewis Gohebiaeth i'r Wasg/Wefan | Sbwriel Mynwentydd<br>Praesept<br>Diweddariad Safle Bws Bryncir<br>Dŵr yn cronni ar ffordd yng Nghwm Pennant a Golan<br>3 Sedd wag a bod ffi i'w gael am fod yn gynghorydd<br>Ymateb yr ymgynghoriad yn erbyn cau Ysgol Nebo a Baladeulyn |